# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| |
|---|
| **Pwyllgor: Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad y cyfarfod: 29 Mawrth 2012** |
| **Cyfarwyddwr Corfforaethol Perthnasol: Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol** |
| **Comisiynydd Perthnasol: Mick Giannasi** |

## Pennawd yr Adroddiad: Rhoi Gwybod i'r Aelodau am y Datblygiadau o ran y Cynigion i Gydweithio yn y Gwasanaethau Cyfreithiol

**1.0 <u>Pwrpas yr Adroddiad</u>**

1.1 Rhoi gwybod i'r aelodau etholedig am y datblygiadau pellach o ran y cynigion i'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru gydweithio o ran darparu gwasanaethau cyfreithiol.

1.2 Cyflwynwyd yr adroddiad cyntaf ar y mater hwn i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 6 Rhagfyr 2011 pryd gofynnodd yr aelodau am adroddiad yn ôl gyda diweddariad ymhen 3 mis. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r diweddariad hwnnw o ran cynnydd a datblygiadau ers cyflwyno'r adroddiad diwethaf.

**2.0 <u>Materion ar gyfer Sgriwtini</u>**

2.1 Fel y gall aelodau etholedig:

- 2.1.1 Nodir datblygiadau ers cyflwyno'r adroddiad ar 6 Rhagfyr 2011.
- 2.1.2 Wneud sylwadau ar y cynigion ar gyfer cydweithio yn gyffredinol ac o bersbectif y Cyngor hwn, a
- 2.1.3 Gwneud awgrymiadau ynghylch gwelliannau posibl.

**3.0 <u>Cefndir</u>**

3.1 Ers nifer o flynyddoedd, bu perthynas weithio agos rhwng cyfreithwyr sy'n gweithio i'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru (sef Sir Y Fflint, Wrecsam, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn).

3.2 Mae'r berthynas wedi cael ei ffurfioli orau drwy waith Grŵp Swyddogion Cyfreithiol Gogledd Cymru (GSCGC): cyfarfodydd mynych rhwng rheolwyr gwasanaethau cyfreithiol o bob un o'r chwe awdurdod.

3.3 Defnyddiwyd GSCGC i helpu i rannu arferion gorau a gwybodaeth sydd o ddiddordeb cyffredin i ymarferwyr cyfreithiol yn y chwe awdurdod.

3.4 Yn ddiweddar, wrth i'r angen i weithio gyda'n gilydd yn agosach ddod yn flaenoriaeth, mae GSCGC wedi gweithio ar bartneriaethau cydweithio i sicrhau arbedion gwirioneddol ar gyfer bob awdurdod lleol. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys Cytundeb Fframwaith ar gyfer pwrcasu cyngor cyfreithiol allanol gan gyfreithwyr, pwrcasu ar y cyd hyfforddiant proffesiynol penodol a phwrcasu ar y cyd ddeunydd ymchwil cyfreithiol.

3.5 Fodd bynnag, mae ymarferwyr cyfreithiol ar draws y chwe awdurdod yn ymwybodol fod awdurdodau lleol yn wynebu sialensiau mawr yn y dyfodol agos a bod cydweithio a newidiadau mawr yn y modd y mae gwasanaethau'n cael eu cyflawni ar fin digwydd. Mae'r cyfreithwyr a gyflogwyd gan y chwe awdurdod eisiau sicrhau eu bod mewn sefyllfa i gynnal gwasanaeth cyfreithiol o safon uchel sy'n broffesiynol ac yn ymatebol yn ystod y cyfnod heriol hwn ac wedi hynny.

3.6 Mae swyddogion cyfreithiol o bob awdurdod wedi sefydlu prosiect cydweithio o ran gwasanaethau cyfreithiol dan nawdd y Bwrdd Rhaglen Rhanbarthol ar gyfer Gwasanaethau Cefnogol.

**4.0 <u>Y Prosiect</u>**

4.1 Yn dilyn trafodaeth ac ymchwil, daeth y chwe awdurdod i gasgliad ynghylch prosiect cydweithio a fyddai â'r amcanion canlynol:

- 4.1.1 Strwythur gwasanaethau cyfreithiol a fydd yn darparu gwasanaeth cyfreithiol addas i'r pwrpas, cynaliadwy o safon uchel i'r chwe awdurdod am y pris gorau i'r pwrs cyhoeddus,
- 4.1.2 Effeithlonrwydd sy'n sicrhau arbedion,
- 4.1.3 Gostwng y swm y mae'r awdurdodau yn ei wario ar wasanaethau cyfreithiol (yn bennaf drwy leihau'r gwariant ar gymorth cyfreithiol allanol), a
- 4.1.4 Cynnal neu wella boddhad cwsmer drwy gydol y cyfnod o newid.

4.2 Tra'n efelychu trefniadau gweithio cyfredol i'r graddau y mae hynny'n bosibl, bydd y model cydweithredol hwn yn golygu y bydd swyddogion cyfreithiol o un awdurdod yn darparu cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol i un arall o'r chwe awdurdod.

4.3 Bydd y prosiect cydweithredol hwn yn fenter esblygol y bydd raid i bob awdurdod ymrwymo iddi am y tymor hir er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf. Er mai'r nod cychwynnol yw gostwng gwariant ar gymorth cyfreithiol allanol, bydd y prosiect yn edrych, yn y tymor hwy, i ddatblygu'r gwasanaethau cyfreithiol y mae'n eu cynnig i'w gleientiaid. Gellir gwneud hyn yn rhannol drwy sicrhau fod pob awdurdod lleol yn llenwi swyddi cyfreithiol gweigion yn unol â gofynion y chwe awdurdod yn hytrach na gofynion yr awdurdod sy'n cyflogi'n unig.

4.4 Bydd y prosiect yn cael ei gyfarwyddo gan Dîm Prosiect ac arno reolwyr ac uwch gyfreithwyr o bob un o'r chwe awdurdod. Bydd y Tîm Prosiect yn atebol i Fwrdd Prosiect ac arno Benaethiaid Gwasanaethau Cyfreithiol o bob un o'r chwe awdurdod.

4.5 Penododd y Tîm Prosiect Reolwr Prosiect gydag arian grant a gafwyd gan CLlLC. Mae ei waith a'i gefnogaeth ef wedi bod yn amhrisiadwy i ran y cynnydd a wnaed hyd yma. Bydd yn aros gyda'r prosiect hyd ddiwedd mis Ebrill 2012.

4.6 Mae staff a chleientiaid ym mhob un o'r chwe awdurdod lleol yn gwybod am y cynigion hyn. Bydd sicrhau bod yr holl gydranddeiliaid yn gyfforddus gyda'r trefniadau arfaethedig yn nod pwysig i'r prosiect. Wrth gwrs, mae cyfranogiad a barn aelodau o staff cyfreithiol yn hanfodol i sicrhau llwyddiant y prosiect.

4.7 Bwriedir lansio camau cyntaf y prosiect ym mis Ebrill 2012. Fodd bynnag, bydd y prosiect yn ymdrech tymor hwy i ddatblygu, dros amser, wasanaeth cyfreithiol cynhwysfawr, gwydn o safon uchel ar gyfer y chwe awdurdod lleol.

4.9 Pryd a phan fydd angen gwneud unrhyw benderfyniad gweithredol i gymeradwyo'r prosiect a'r camau y bwriedir eu cymryd o Ebrill 2012, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r comisiynwyr ei gymeradwyo.

## 5.0 Datblygiadau ers Rhagfyr 2011

5.1 Mae staff cyfreithiol wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd ac mewn ymgynghoriad â'r Reolwr Prosiect i gyflawni'r tasgau isod:

5.1.1 Drafftio Memorandwm o Ddealltwriaeth yn amlinellu'r egwyddorion ar gyfer cydweithio rhwng y chwe awdurdod.

5.1.2 Mae gwaith wedi cael ei wneud i baratoi Cynllun Busnes a Dyluniad Gwasanaeth ar gyfer y fenter gydweithredol. Bydd y prosiect yn adrodd yn ôl ar gynnydd i'r Bwrdd Rhaglen Rhanbarthol ddiwedd Mawrth 2012.

5.1.3 Gofynnwyd i staff cyfreithiol y chwe awdurdod gyfrannu at Holiadur Sgiliau Staff er mwyn datblygu data-bas cynhwysfawr o sgiliau ar draws y rhanbarth.

5.1.4 Gofynnwyd i staff cyfreithiol ddarparu ciplun ohonynt eu hunain, eu gwaith a'u cefndir proffesiynol. Bydd hyn yn ganllaw i aelodau staff eraill ar draws y rhanbarth a gellid, yn y pen draw, eu defnyddio mewn deunydd marchnata.

5.1.5 Cynhaliwyd cyfarfod staff yn Venue Cymru ar brynhawn 22 Chwefror. Gwahoddwyd holl staff cyfreithiol y chwe awdurdod. Yn y diwedd, daeth oddeutu 100 o staff cyfreithiol i'r cyfarfod. Roedd y cyfarfod yn gyfle i gyflwyno ac egluro ein cynigion i'r holl staff cyfreithiol a fydd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol ganddynt.

5.1.6 Roedd cyfle hefyd yn y digwyddiad yn Venue Cymru i staff cyfreithiol gyfarfod y sawl sy'n cyflawni'r un swyddogaeth mewn cynghorau gwahanol. Rhannwyd y staff yn bump Grŵp Diddordeb Arbenigol (GDA) i drafod syniadau o ddiddordeb cyffredin i'w maes gwaith. Roedd hyn yn cynnwys nodi anghenion hyfforddi gyda'r pwyslais ar ddatblygu sgiliau ac arbenigedd proffesiynol yn fewnol (yn hytrach na dibynnu ar orfod prynu i mewn y fath arbenigedd). Y GDA oedd:

Corfforaethol, Contractau a Phwrcasu, Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol, Ymgyfreithiad, Tai a Chyflogaeth, Cefnogaeth a Gweinyddiaeth Gyfreithiol ac Eiddo, Cynllunio a Thai.

5.1.7 Bydd y GDA hefyd yn fodd defnyddiol o sefydlu cysylltiadau rhwydweithio rhwng staff cyfreithiol gwahanol awdurdodau sy'n gwneud yr un gwaith ond sydd ddim hyd yma wedi sefydlu cysylltiadau. Defnyddir hyn fel modd i hyrwyddo a rhannu arferion gorau, rhannu sgiliau a gwybodaeth broffesiynol ac fel adnodd ar gyfer cefnogaeth broffesiynol. Bwriedir hyn i ddatblygu gwydnwch y ddarpariaeth o wasanaethau cyfreithiol mewnol ac fel ffynhonnell o arbedion anuniongyrchol sy'n sicrhau effeithlonrwydd.

Mae atborth cychwynnol o'r cyfarfod Venue Cymru wedi bod yn gadarnhaol.

5.1.8 Mae'r fenter gydweithredol wedi llwyddo i sicrhau grant o £30,000 gan Lywodraeth Cymru o arian ADAPT. Bwriedir defnyddio'r arian hwn i brynu adnoddau datblygu sgiliau proffesiynol fel y cânt eu nodi gan bob GDA.

## 6.0 **<u>Datblygiadau yn y Dyfodol</u>**

6.1 Mae'r prosiect yn edrych i weithredu'r newidiadau/cynigion isod o Ebrill 2012:

6.1.1 System a fydd yn caniatáu i waith cyfreithiol penodol mewn un awdurdod gael ei wneud gan gyfreithwyr mewn awdurdodau eraill yn y rhanbarth heb orfod allanoli'r gwaith hwnnw i'r sector preifat. Bydd hyn yn rhatach i'r cyngor sydd angen y gwaith ac yn creu incwm i'r cyngor sy'n ei wneud. Gwelwyd hyn fel cam cyntaf y prosiect arfaethedig i gydweithio.

6.12 Gweithredu'r rhaglen hyfforddi ar gyfer y GDA yn y cyfnod hyd at Awst 2012. Wedyn, gofynnir i'r GDA gyfarfod yn rheolaidd a datblygu eu rhaglenni gwaith eu hunain gan gynnwys hyfforddiant a datblygu a safoni arferion gorau yn eu meysydd gwaith penodol.

6.1.3 Cyflwyno cais pellach am gymorth grant i gefnogi gwaith rheoli prosiect am y ddwy flynedd nesaf. Bydd datblygu'r prosiect cydweithio ymhellach ac ar gyfer y dyfodol yn ddibynnol ar sicrhau cyllid ar gyfer rheoli'r prosiect. Heb reolwr penodol ar gyfer y prosiect, mae'n annhebygol iawn y gellir symud ymlaen. Nid oes gan y chwe adain gyfreithiol yr adnoddau mewnol ar hyn o bryd i gyllido swydd rheolwr prosiect ac nid oes gan y staff cyfredol yr amser i reoli'r prosiect. Bydd datblygu ail ran y prosiect yn dibynnu ar sicrhau adnoddau i reoli'r prosiect.

6.1.4 Bydd ail ran y prosiect yn cynnwys edrych ar ddatblygu'r fenter gydweithredol yn endid y mae modd ei marchnata o ran darparu gwasanaethau cyfreithiol i gyrff cyhoeddus eraill yng Ngogledd Cymru

ac edrych ar opsiynau a gofynion rheoli achos ar gyfer y fenter gydweithredol.

## 7.0 Rôl Sgriwtini

7.1 Cyflwynir yr adroddiad hwn i:

- 7.1.1 Roi gwybod i'r aelodau etholedig am y cynigion ar gyfer cydweithio yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol ymysg y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru,
- 7.1.2 Ymgynghori gydag aelodau etholedig fel cydranddeiliaid mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyfreithiol i ac ar ran y Cyngor hwn, a
- 7.1.3 Chael sylwadau a barn aelodau etholedig mewn perthynas â'r cynnig ei hun i gydweithio.

***Enw'r Swyddog: Robyn Jones***
***Teitl Swydd: Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol***
***Adran: Adran Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol***

*Dyddiad: 12 Mawrth 2011*

---

**Atodiadau:** Dim

**Penderfyniadau Perthnasol a wnaed eisoes gan y Cyngor, y Pwyllgor Gwaith neu'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol:**
Dim penderfyniadau perthnasol blaenorol.

**Papurau Cefndir:** Dim

**Swyddog Cyswllt:** Robyn Jones (Rhif Ffôn: 01248 752134).